

Atodiad E



Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)

Enw'r Polisi neu'r Arfer	Cynllun Corfforaethol: 2017 – 2022		
Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y Polisi neu'r Arfer	Iwan Davies, Prif Weithredwr		
Enw'r swyddog (ion) sy'n llenwi'r ffurflen asesu effaith	Hannah Edwards (Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol)		
Gwasanaeth	Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol	Dyddiad yr Asesiad	Rhagfyr 2016

Llenwyd yr EIA gan:		Cytunodd y Pennaeth Gwasanaeth ar yr EIA:	
Dyddiad	Rhagfyr 2016	Dyddiad:	Rhagfyr 2016
Enw(au)	Hannah Edwards	Enw	Iwan Davies
Llofnod(ion)		Llofnod	

CAM 1 – Nodi Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Arfer

1. Beth sy'n cael ei asesu? **(Cliciwch ddwywaith ar y bocs a dewiswch 'checked' fel sy'n briodol i roi croes X)**

- Polisïau neu arferion newydd a diwygiedig
- Trefnau newydd (sy'n addasu arferion darparu gwasanaeth neu gyflogaeth)
- Cynigion adolygu neu ad-drefnu gwasanaeth sy'n effeithio ar y gymuned ac/neu staff
- Cynigion effeithlonrwydd neu arbed
- Gosod dyraniadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd
- Penderfyniadau yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach
- Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu hygyrchedd i'r amgylchedd adeiledig, e.e. gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol
- Arall, eglurwch yn y bocs isod:

Amherthnasol

2. Beth yw nodau ac amcanion cyffredinol y polisi neu'r arfer?

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi blaenoriaethau allweddol y Cyngor, lle rydym eisïau rhoi sylw arbennig dros y 5 mlynedd nesaf i gefnogi y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys gofyniad statudol o fewn rhan 2 o Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - i gael Cynllun Lles sy'n nodi ein Hamcanion Lles. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys Datganiad Lles sy'n amlinellu pam fod y Cyngor o'r farn bod cyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni nodau lles a sut rydym wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r amcanion lles.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn cyflawni rhwymedigaeth statudol i gynllunio ar gyfer gwelliant parhaus fel y nodir yn y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan Ganllaw Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella 2010. Yn ôl y mesur hwn, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

Mae'r blaenoriaethau / amcanion lles wedi cael eu datblygu drwy ymgysylltu â'r gymuned a dadansoddiad o asesiad o les cymunedol.

3. Pwy mae'r polisi neu'r arfer yn bwriadu ei helpu neu elwa (budd-ddeiliaid)?

Yr holl bobl sy'n gweithio, yn byw ac yn ymweld â Bwrdeistref Sirol Conwy.

4. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol neu gymuned gyda buddiannau cyffredin?

Dinasyddion, Cynghorau Tref a Chymuned, y Cyngor Ieuenctid, busnesau lleol (a'u cynrychiolwyr rhwydwaith), undebau llafur, sefydliadau sector gwirfoddoli, partneriaid yn y sector cyhoeddus, Aelodau Etholedig, Uwch Reolwyr, Staff y Cyngor, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru.

CAM 2 – Ystyried Gwybodaeth Bresennol a Beth Mae Hyn yn Dweud Wrthyh

Wrth lenwi'r adran hon, mae angen i chi ystyried os oes gennych wybodaeth ddigonol er mwyn llenwi eich EIA, neu a oes angen i chi gynnal cyfnod ymrwymiad/ymgyngori cyn parhau. Mae'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r broses EIA yn eich gorchymyn i **gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a ddiogelir a gyda'r rhai sydd â diddordeb yn y modd rydych yn cyflawni eich swyddogaethau.** Mae'n rhaid i hyn fod yn gymesur â'r polisi neu'r arfer y cynhelir Asesiad Effaith Cydraddoldeb arno. Efallai eich bod eisoes wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar yn benodol ar y polisi neu'r arfer hwn. Efallai bod rhai o swyddogion eraill CBSC wedi gwneud gwaith ymgysylltu a fydd yn berthnasol i'r EIA hwn a gallwch adolygu'r Gronfa Ddata Cynnwys y Gymuned i ddarganfod pa weithgarwch ymgysylltu sydd wedi digwydd yng Nghonwy a phenderfynu a yw hyn yn berthnasol. Os nad oes unrhyw wybodaeth o'ch ymgysylltu blaenorol yn berthnasol i'r EIA, neu ddim ond ychydig iawn ohono, dylech ystyried gwneud rhywfaint o waith ymgysylltu gyda'ch cyfranogion a gyda grwpiau o gynrychiolwyr perthnasol i sicrhau nad ydych chi, yn ddiarwybod i chi, yn anwybyddu anghenion pob grŵp a ddiogelir.

5. **Beth ydych chi eisoes yn gwybod am yr effaith ar bob nodwedd a ddiogelir o'ch profiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol neu ymgysylltu neu ymgynghori blaenorol? Gallech gyfeirio at y Ffurflen Sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cychwynnol a'r Gronfa Ddata Cynnwys y Gymuned.**

Grŵp a Ddiogelir	Perthnasedd y polisi / arfer yn ôl y nodwedd a ddiogelwyd
Hil	Ystadegau cyffredinol <ul style="list-style-type: none">Mae 95.4% o boblogaeth y sir yn wyn Prydeinig, mae 2.3% yn wyn ond ddim yn Brydeinig ac mae 2.3% yn hil gymysg neu'n grŵp ethnig arall.Ganwyd 54.4% o boblogaeth y sir yng Nghymru, a chafodd 4.3% o'r boblogaeth yng Nghonwy eu geni y tu allan i'r DU.

Grŵp a Ddiogelir	Perthnasedd y polisi / arfer yn ôl y nodwedd a ddiogelwyd
	<ul style="list-style-type: none"> • Mae 47.6% o drigolion ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn ystyried eu hunain yn Gymry, o'i gymharu â 65.8% yng Nghymru. • Nid yw 5.8% o'r holl blant sy'n cael eu haddysgu yn ysgolion Conwy yn wyn Prydeinig. • Mae 'Adolygiad o'r dystiolaeth ar anghydraddoldeb o ran Mynediad at Wasanaethau Iechyd yng Nghymru 2014' yn adrodd bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn parhau i wynebu rhwystrau, megis: efallai y bydd rhyw y meddyg teulu yn cynrychioli rhwystr i bobl Sipsi neu Deithiwr; gall rhwystrau iaith ymysg rhai pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eu rhwystro rhag deall y cyngor iechyd y maent yn ei dderbyn. • Yn 2013/14, cafodd 1,809 o droseddau casineb eu hadrodd i'r heddlu yng Nghymru, roedd 1,368 (76%) ohonynt yn droseddau casineb hiliol. <p>Adborth ar ôl ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym wedi cael adborth nad yw pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig bob amser yn gwybod pa wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod neu yn deall sut i gael mynediad at wasanaethau penodol. Efallai bod gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ofynion diwylliannol penodol y mae angen i ni eu hystyried wrth ddarparu gwybodaeth a chyflwyno gwasanaeth. <i>Strategaeth Gyfathrebu</i> • Tynnwyd sylw at yr angen am ddiffiniad mwy eglur o Droseddau Casineb. <i>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</i> • Tynnwyd sylw at y diffyg cwnsela sydd ar gael ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn eu hieithoedd eu hunain, yn enwedig ymhlith pobl hŷn. <i>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</i>
Anabledd	<p>Ystadegau cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd gan 24.2% o boblogaeth Conwy salwch hirdymor cyfyngol. Mae hyn yn golygu y gall hyd at chwarter o'n cwsmeriaid fod â gofynion penodol ar y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. • Yn ôl yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth 15/16, roedd gan 21.2% o'r boblogaeth anabledd sy'n cyfyngu ar eu gwaith. • Yn ystadegol, mae pobl anabl yn fwy tebygol o fod ar restr fer ar gyfer swydd, ond yn llai tebygol o gael y swydd. • Roedd yn rhaid i 23% o bobl anabl wrthod swydd oherwydd diffyg cludiant addas. • Yn 2013/14, cafodd 1,809 o droseddau casineb eu hadrodd i'r heddlu yng Nghymru, roedd 122 (8%) ohonynt yn droseddau casineb anabledd. <p>Adborth ar ôl ymgysylltu</p>

Grŵp a Ddiogelir	Perthnasedd y polisi / arfer yn ôl y nodwedd a ddiogelwyd
	<ul style="list-style-type: none"> Rydym wedi cael adborth yn gofyn bod gan gynllunwyr a dylunwyr gwell dealltwriaeth o anghenion mynediad a bod rhwystrau corfforol yn parhau i fod ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg. <i>Cynllun Datblygu Lleol</i> Mae'r rhwystrau yn cynnwys darpariaeth dehongli iaith Arwyddion Prydain, iaith (heblaw Cymraeg neu Saesneg) a darpariaeth ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg <i>Strategaeth Gyfathrebu</i> Amlygwyd hefyd nad oedd staff bob amser yn deall y rhwystrau i gael gafael ar wybodaeth e.e. fyddar pobl. <i>Strategaeth Gyfathrebu</i> Mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch y diffyg cyfleoedd cyflogaeth priodol ar gyfer pobl sydd ag anabledau. <i>Datblygu sgiliau</i> Tynnwyd sylw at y ffaith y dylid rhoi ystyriaeth i unigolion anabl a allai fod mewn perygl o drais yn eu cartref, ac efallai y byddent yn annhebygol o adrodd hyn oherwydd yr effaith y gallai hyn ei gael ar eu darpariaeth gofal. <i>Diogelu</i>
Rhyw	<p>Ystadegau cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae 51.4% o boblogaeth y sir yn ferched, mae hyn yn bennaf oherwydd y ffaith bod merched yn byw yn hirach na dynion. Mae dynion yn llai tebygol na merched o ddefnyddio ystod o wasanaethau iechyd. Mae cyfraddau gweithgarwch corfforol yn is ar gyfer merched a genethod (23%) na dynion a bechgyn (38%). Mae dynion yn fwy tebygol o fod yn fwy dros eu pwysau neu'n ordew na merched (61% o ddynion o'i gymharu â 54% o ferched). Mae cyfraddau yfed alcohol (mwy na'r canllawiau dyddiol a argymhellir) yn uwch ar gyfer dynion na merched (46% o ddynion o'i gymharu â 35% o ferched). Yn 2015/16, fe gyflawnodd 53% o fechgyn Lefel 2 mewn pynciau craidd (A * - C TGAU) o'i gymharu â 59.2% o ferched. Mae genethod yn adrodd am fwlio megis celwyddau a hel sibrydion ac yn aml mae a wnelo hyn â rhwydweithiau cymdeithasol. <p>Adborth ar ôl ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd pobl yn dal i gredu fod yna fwllch cyflog (yn bennaf mewn perthynas â rhyw, ond hefyd ar draws y nodweddion eraill a ddiogelir yn ogystal), ac mae angen mwy o ffocws wrth fynd i'r afael â'r bwlch yma. <i>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</i>
Oedran	Ystadegau cyffredinol

Grŵp a Ddiogelir	Perthnasedd y polisi / arfer yn ôl y nodwedd a ddiogelwyd
	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan y sir y gyfran uchaf o boblogaeth oedrannus yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer pobl 85 oed a hŷn - 4% yng Nghonwy o gymharu â 2.6% yng Nghymru. • Bydd % y bobl hŷn sy'n byw yng Nghonwy'n cynyddu sy'n golygu y bydd mwy o bwyslais ar faterion mynediad. Erbyn 2039, rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yn cynyddu ym Mwrdeistref Sirol Conwy o 35% i 41,600. Bydd hyn yn 35.2% o'r boblogaeth yng Nghonwy. • Mae 67% o'r gweithlu yn iau na 50 oed (ad) • Mae amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn dangos bwch mawr yn y strwythur oedran rhwng 18 i 40 oed. • Os bydd tueddiadau'r gorffennol yn parhau, erbyn 2039 rhagwelir bydd y rhai dan 25 oed, yn ffurfio dim ond 25% o'r boblogaeth (y ganran o'r rhai dan 25 ar hyn o bryd yw = 27%). • Mae plant yn y grwpiau oedran hŷn yn llai tebygol o fod yn gorfforol egniol. • Mae plant o gefndiroedd mwy cefnog yn gwneud mwy o weithgareddau corfforol. • Mae pobl hŷn yn tueddu i chwarae rôl allweddol wrth gefnogi a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol, sydd yn ei dro yn rhwymo cymunedau a theuluoedd at ei gilydd. • Mae nifer yr achosion o gyflyrau iechyd tymor hir yn cynyddu gydag oedran, ac mae cyflyrau o'r fath yn cyfrif am tua 70% o'r gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol. <p>Adborth ar ôl ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym wedi cael adborth yn dangos pryderon sydd yn ymwneud ag urddas mewn gofal. <i>Datblygu modelau newydd o flaenoriaeth iechyd a gofal cymdeithasol.</i> • Problemau gydag unigrwydd ac unigedd - Mynegodd ymatebwyr yng Nghonwy bryder na allant gael gafael ar y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen (yn gorfforol ac yn ddigidol) gan gynnwys cyfleusterau sy'n gallu eu cadw'n heini ac yn iach. <i>Canolfannau Llyfrgell cymunedol</i> • Fe soniodd pobl hefyd am yr angen am fwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau mewn cymunedau lleol sy'n cadw pobl yn gysylltiedig ac yn heini. <i>Canolfannau Llyfrgell cymunedol</i> • Cafwyd sylwadau hefyd am yr angen am ofal dementia ychwanegol. <i>Datblygu modelau newydd o flaenoriaeth iechyd a gofal cymdeithasol.</i> • Fe ganolbwyntiodd ymatebion ymgysylltu ar yr angen i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc a fydd yn eu galluogi i adeiladu gyrfaoedd yn lleol, nid o amgylch swyddi rhan-amser, tymhorol yn unig. <i>Sgiliau</i> • Roedd pobl yn teimlo y gallai fod yna ffyrdd o gysylltu pobl iau sy'n gwirfoddoli i gefnogi ar gyfer pobl hŷn a chael profiad gwaith. <i>Sgiliau</i> • Fe wnaethom hefyd dderbyn safbwyntiau ein bod angen mwy o gartrefi fforddiadwy ar ffurf modiwlwr i bobl iau a fydd yn denu pobl iau i fyw yn yr ardal. <i>Strategaeth Tai Lleol</i>

Grŵp a Ddiogelir	Perthnasedd y polisi / arfer yn ôl y nodwedd a ddiogelwyd
Crefydd a Chred	<p>Ystadegau cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 64.7% o bobl sy'n byw yng Nghonwy yn Gristnogion. • Rhwng 2001 a 2011 bu gostyngiad yng nghyfran y bobl sy'n nodi eu bod yn Gristnogion a chynnydd yn y rhai sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw grefydd. • Ar y cyfan, fe ddyblodd y nifer o bobl sydd â chrefydd heblaw Cristnogaeth rhwng 2001 a 2011 o 950 i 1,700 neu 1.5% o'r boblogaeth yng Nghonwy. O fewn y nifer hwn, Moslemaid oedd y grŵp crefyddol mwyaf gyda 0.5% o'r boblogaeth. <p>Adborth ar ôl ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dim adborth yn y maes hwn.
Tueddfryd Rhywiol	<p>Ystadegau cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oes data dibynadwy am faint y boblogaeth hoyw, lesbiaid neu ddeurywiol yn y DU. • Fodd bynnag, yn ôl Arolwg Poblogaeth Blynnyddol 2015, dywedodd 95% o bobl yng Nghymru eu bod yn heterorywiol, a rhoddasant amcangyfrif mai dim ond 2% o'r boblogaeth sydd yn Hoyw / Lesbiad / Deurywiol neu arall. • Mae 'Adolygiad o'r dystiolaeth ar anghydraddoldeb o ran Mynediad at Wasanaethau Iechyd yng Nghymru 2014' yn adrodd bod pobl lesbiaid, hoyw a deurywiol a phobl lesbiaid, hoyw a deurywiol anabl yn adrodd ofnau o ragfarn neu gamdriniaeth. • Daeth ymchwil Stonewall hefyd i'r casgliad fod gwahaniaethau sylweddol rhwng anghenion iechyd pobl lesbiaid, hoyw a deurywiol a rhai pobl heterorywiol. O'i gymharu â phobl heterorywiol, mae mwy o ferched lesbiaidd a deurywiol wedi hunan-niweidio, mae dynion hoyw a deurywiol yn fwy tebygol o gamddefnyddio cyffuriau yn amlach, ac nid yw unigolion lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau iechyd sydd eu hangen arnynt. <p>Adborth ar ôl ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Teimlwyd bod angen mwy o ddealltwriaeth gan staff rheng flaen mewn perthynas ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ac o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Ailbennu Rhyw	<p>Ystadegau cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Does dim data am bobl drawsrywiol ar gael ar hyn o bryd ar lefel awdurdod unedol neu ar lefel genedlaethol.

Grŵp a Ddiogelir	Perthnasedd y polisi / arfer yn ôl y nodwedd a ddiogelwyd
	<p>Adborth ar ôl ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> Tynnwyd sylw at bwysigrwydd bod pobl trawsrywiol yn cael eu galw gan eu henw dewisol yn hytrach na'u henw geni wrth dderbyn gofal er mwyn iddynt deimlo'n werthfawr ac yn rhan o gymdeithas. <i>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</i> Teimlwyd bod angen mwy o ddealltwriaeth gan staff rheng flaen mewn perthynas ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ac o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. <i>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</i>
Priodas a Phartneriaeth Sifil	<p>Ystadegau cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oes data am bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil ar gael ar hyn o bryd. <p>Adborth ar ôl ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> Dim adborth yn y maes hwn.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	<p>Ystadegau cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oes data am y grŵp yma a ddiogelir ar gael ar hyn o bryd. <p>Adborth ar ôl ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> Dim adborth yn y maes hwn.
Y Gymraeg	<p>Ystadegau cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2015), mae tua 36% o'r boblogaeth sy'n 3 oed neu'n hŷn yn siaradwyr Cymraeg – mae hyn yn llawer uwch na ffigur Cymru gyfan o 27%. <p>Adborth ar ôl ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> Roedd pobl yn teimlo bod angen i ni gymryd agwedd wahanol at y Gymraeg yn yr ysgolion er mwyn i bobl ifanc ddysgu defnyddio'r iaith yn gymdeithasol, nid i lwyddo mewn arholiadau yn unig. <i>Strategaeth yr Iaith Gymraeg</i> Mae angen i ni hefyd sicrhau bod yna ddigon o lefydd gwag mewn ysgolion i gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. <i>Rhaglen Moderneiddio Ysgolion</i> Teimlai pobl hefyd ein bod angen cynlluniau darllen gwell ar gyfer dysgwyr Cymraeg a mwy o gymorth i rieni sy'n siarad Saesneg sydd am gefnogi plant mewn ysgolion Cymraeg. <i>Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg</i>

Grŵp a Ddiogelir	Perthnasedd y polisi / arfer yn ôl y nodwedd a ddiogelwyd
	<ul style="list-style-type: none"> Teimlwyd hefyd er ei bod yn bwysig darparu gwasanaethau yn ddwyieithog, mae angen cael cydbwysedd o ddarpariaeth Gymraeg gyda recriwtio effeithiol. <i>Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Safonau Iaith Gymraeg</i> Pwysleisiodd pobl hefyd yr angen am wasanaethau cyfieithu a dehonglydd i fod ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu, nid dim ond Cymraeg a Saesneg, a dylai gynnwys iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill. <i>The Big Word, Strategaeth Gyfathrebu</i>
Arall (nodwch)	Amherthnasol

6. Crynowch y data perthnasol atodol, ymchwil a gwybodaeth rheoli perfformiad sydd gennych yn barod:

Data / Gwybodaeth	Engbreiffiau
<p>Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi tynnu ar y sgrinio EIA cychwynnol a wnaed ar gyfer y gwaith ymgysylltu. Mae'r Cynllun corfforaethol wedi ei lunio gyda'r adborth a dderbyniwyd o'r ymarfer ymgysylltu â'r gymuned 'Sgwrs y Sir'. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad er mwyn sicrhau ein bod wedi cael adborth o bob ardal ddaearyddol y sir ac ar bob pwnc, yn ogystal â sicrhau bod yr ymatebion a dderbyniwyd yn cynrychioli adborth gan bob nodwedd a ddiogelir. Fe wnaethom hefyd edrych ar adborth ymgysylltu â'r gymuned eraill sydd wedi cael ei wneud yn y 12 mis diwethaf yn ôl meysydd gwasanaeth eraill.</p> <p>Lle bo'n briodol, bydd gan yr holl gamau gweithredu unigol EIA.</p>	<p>Sgrinio EIA Cychwynnol Cwynion Canmoliaeth Data Defnyddwyr Gwasanaeth Adborth Defnyddwyr Gwasanaeth Arolygon neu Archwiliadau</p>
Ymchwil neu Wybodaeth Gymharol	Engbreiffiau
<p>Mae'r ymchwil ar gyfer datblygu'r Cynllun Corfforaethol (2017 - 2022) yn seiliedig ar yr Asesiad Lles Lleol. Mae'r Asesiad Lles Lleol yn asesu cyflwr lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn ei ardal.</p> <p>Gweler y ddolen isod i'r asesiad lles ar-lein - http://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/en/home/english-wellbeing-assessment/</p> <p>Fe gynhyrchwyd yr Asesiad Lles Lleol gan ddefnyddio dull arwain drwy ymgysylltu. Fodd bynnag, defnyddiwyd tystiolaeth o ddata ac ymchwil o sawl ffynhonnell, gan gynnwys gwybodaeth Cyfrifiad (2011), data Iechyd Cyhoeddus Cymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a phapurau ymchwil gan gyrff proffesiynol (megis Joseph Roundtree Foundation).</p>	<p>Arolygon Defnyddwyr Gwasanaeth Astudiaethau gan adrannau'r Llywodraeth neu gyrff proffesiynol Data'r Cyfrifiad Prosiectau ac ymchwil ar sail gwasanaeth Pa mor deg yw Cymru (data'r EHRC)</p>

7. **Ydych chi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i Ymgysylltu fel y disgrifiwyd ar ddechrau'r adran hon ac ydych chi'n ddigon gwybodus i fwrw ymlaen?**

Ydw Nac ydw (*rhowch groes fel sy'n briodol X*) Os Ydych, ewch ymlaen i Gam 3

Os Nac ydych, efallai yr hoffech ystyried cael saib rŵan tra'ch bod yn gwneud eich gweithgarwch ymgysylltu (a dylech eu hychwanegu i'ch cynllun gweithredu - Cam 6). Dylech ymgorffori unrhyw wybodaeth rydych wedi'i gael o'r gweithgarwch ychwanegol hwn yn y bocs isod a nodi beth oedd y canfyddiadau allweddol:

Er mwyn datblygu ein blaenoriaethau ar gyfer Conwy, roeddem yn awyddus i siarad â chymaint o bobl â phosibl i ofyn eu barn am yr hyn sy'n gweithio'n dda yng Nghonwy ac ar beth y mae angen i ni ganolbwyntio arno nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gofynnwyd i bobl i siarad am eu profiadau a'u cymunedau er mwyn i ni ddeall ychydig mwy am bryderon lleol - a chryfderau – cyn llunio blaenoriaethau'r sir gyfan ar gyfer CBS Conwy ac ar gyfer cyrff cyhoeddus statudol eraill sy'n gweithio'n lleol, gan gynnwys Iechyd, yr Heddlu, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Tân ac Achub. Roeddem yn awyddus i osgoi gofyn i bobl roi sylwadau ar ddogfennau trwchus, neu ganlyniadau strategol oedd wedi'u penderfynu ymlaen llaw.

Fe wnaethom ofyn 5 cwestiwn penagored syml:

1. Beth yw'r peth gorau am (pwnc penodol) yn eich maes chi?
2. Beth yw eich her fwyaf am hyn yn eich maes?
3. Pam bod hyn yn bwysig i chi?
4. A oes gennych chi unrhyw syniadau am sut y gellir gwneud hyn yn well?
5. O gofio bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn wynebu toriadau, pwyl arall allai gyflawni'r newidiadau?

Yn gyntaf, gyda chymorth Llais y Gymuned, buom yn siarad gyda bron i 30 o grwpiau cymunedol, yn cynnwys ystod o fuddiannau cymunedol mewn cymysgedd o leoliadau trefol a gwledig. Fe wnaethom hefyd gyfathrebu drwy Aelodau Etholedig CBS Conwy a Chynghorau Tref a Chymuned i annog cyfranogiad lleol.

Yn ail fe wnaethom droi at gyfryngau cymdeithasol. Fe wnaethom agor cyfrif Twitter a thudalen Facebook er mwyn hyrwyddo Sgwrs y Sir ac i ddiweddarau pobl am y sylwadau roeddem yn eu derbyn ac i alluogi pobl i lenwi holiaduron ar-lein. Fe aethom ati i hyrwyddo cyfryngau cymdeithasol drwy grwpiau cymunedol a gwirfoddol, rhwydweithiau busnes, ein partneriaid statudol a staff. Fe wnaethom dderbyn tua 500 o ymatebion i Sgwrs y Sir.

Yn ogystal, fe wnaethom edrych ar yr hyn roedd pobl eisoes wedi'i ddweud wrthym. Rydym yn gwybod bod pobl yn gorfod dweud eu barn yn rheolaidd am faterion yn ymwneud â gwasanaeth felly fe wnaethom edrych ar adborth gan y gymuned roeddem wedi'i dderbyn dros y 12 mis

diwethaf, gan gynnwys ymgynghoriadau gwledig (yn cynnwys ffermwyr ifanc), ymgynghoriadau a gweithdai plant a phobl ifanc, ac ymgysylltu â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Fe wnaethom gyfathrebu â chroestoriad eang o'r gymuned, megis:

- ✓ Grwpiau a fforymau cymunedol
- ✓ Pobl ifanc
- ✓ Preswylwyr
- ✓ Unigolion ag anableddau
- ✓ Busnesau
- ✓ Grwpiau ffydd
- ✓ Cynghorau Tref a Chymuned
- ✓ Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru
- ✓ Cyrff statudol

Dechrau'r Sgwrs yn unig yw Sgwrs y Sir - bydd Sgwrs y Sir yn parhau fel y gallwn adolygu'r cynllun blaenoriaethau hwn yn rheolaidd, ond hefyd er mwyn i ni allu datblygu cynlluniau gyda chymunedau ar lefel leol. Neges gref a dderbyniwyd yn yr adborth a gawsom oedd bod pobl yn awyddus i fod yn rhan o'r penderfyniadau am eu cymunedau lleol, i wybod beth yw'r problemau ac i rannu'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael â hwy.

CAM 3 – Caffael a Phartneriaethau

Mae Dyletswydd Cyffredinol y sector cyhoeddus yn golygu bod angen i bob awdurdod cyhoeddus ystyried anghenion gwahanol grwpiau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol i sefydliadau yn y sector preifat sy'n darparu swyddogaeth gyhoeddus ar ein rhan ac mae angen i ni sicrhau bod sefydliadau sy'n arfer y swyddogaethau hynny drwy sicrhau bod ein system o gaffael a monitro'r gwasanaethau hynny yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.

8. A fydd y polisi neu'r arfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gcontractwyr mewn partneriaeth â sefydliad(au) arall/eraill?

Bydd Na fydd (***rhowch groes fel sy'n briodol X***) Os Na, ewch ymlaen i Gam 4

9. Os Ydych, sut byddwch chi'n cydymffurfio â Deddfwriaeth Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a'r Iaith Gymraeg? Meddyliwch am:
10.

Caffael

- Gosod disgwyliadau clir o ran cydraddoldeb yn y dogfennau Tendro a Manylebau
- Ar be seilïoch chi eich penderfyniadau yn y broses ddyfarnu
- Bod cymalau'r contract yn cynnwys gofynion cydraddoldeb deddfwriaethol
- Mae mesurau Perfformiad a Monitro wedi'u cynnwys i fonitro cydymffurfiaeth

Partneriaethau

Pwy sy'n gyfrifol am:

- Fonitro Cydraddoldeb data perthnasol
- Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb
- Cyflawni camau gweithredu'r EIA
- Sicrhau bod pob partner yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r iaith Gymraeg

Ni chafwyd unrhyw broses dendro ffurfiol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol, gan fod y gwaith yn cael ei wneud gan CBSC. Mae Monitro ac Adolygu hefyd yn cael ei wneud gan CBSC gyda'r gwaith archwilio allanol yn cael ei gynnal gan Swyddfa Archwilio Cymru. Fe all fod yn bosibl y bydd rhywfaint o'r gwaith rydym yn ei wneud yn cael ei anfon allan, a phan fydd hyn yn digwydd, yn ôl y broses gaffael, mae'n ofynnol rhoi ystyriaeth i sut y bydd unrhyw sefydliadau darparwr yn cydymffurfio ag unrhyw ddyletswyddau cydraddoldeb.

Wrth gyflawni rhai o'r canlyniadau, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth. Lle mae yna brosiectau ar y cyd sy'n cynnwys nifer o sefydliadau, bydd yn bwysig dod i gytundeb gyda sefydliadau partner sydd yn gyfrifol am elfennau penodol, e.e. Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb, adrodd ar gamau gweithredu, ac ati.

CAM 4 – Asesu'r Effaith

10. Oes unrhyw dystiolaeth o ddefnydd neu fodlonrwydd uwch neu is gan unrhyw grŵp(iau), ac os felly, sut yr eglurir hyn?

Mae tystiolaeth wrth gasglu data wedi nodi lle mae yna anghydraddoldeb cyson mewn Cymdeithas a hefyd yn y canlyniadau i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau e.e. recriwtio, addysg ac ati. Nid yw'n bosibl rhestru pob cam gweithredu yn y Cynllun Corfforaethol. Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol (2016 - 2020) wedi cael ei lunio er mwyn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau penodol sy'n bodoli yng Nghonwy a bydd y camau yn y Cynllun hwn yn bwydo mewn i waith y Cynllun Corfforaethol.

Nod y prif gamau yn y Cynllun Corfforaethol yw bod o fantais i bob dinesydd. Mae yna gyfeiriadau penodol i sicrhau bod pobl ddi-amddiffyn yn cael eu diogelu, a gwella mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl. Bydd cyrhaeddiad addysgol yn cynnwys dull wedi'i dargedu i leihau'r bwlch rhwng plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd ddim. Mae mynediad at dai o safon dda yn flaenoriaeth arall. Bydd ein hadolygiad o ymagwedd at gyfathrebu yn cynnwys mynediad i bobl sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu golwg. Bydd y Cynllun Corfforaethol yn parhau ag ymrwymiad y Cyngor i annog y nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg.

Rydym yn cydnabod yn y Cynllun Corfforaethol er ein bod wedi ymgysylltu â phob grŵp a ddiogelir, mae yna rai grwpiau yr hoffem gynyddu'r lefel o ymgysylltu dros gyfnod y weinyddiaeth. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r adolygiad mewn i ddull ymgysylltu Conwy.

11. Yw daearyddiaeth neu ddemograffeg unrhyw grwpiau yn datgelu unrhyw beth?

Mae yna wahaniaethau pwysig rhwng mynediad ac argaeledd ein gwasanaethau yn dibynnu os yw pobl yn byw mewn ardaloedd gwledig neu drefol. Felly, bydd y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys themâu trawsbynciol yn erbyn yr 8 amcan lles, ac un ohonynt yw ystyried effaith polisïau ar gymunedau gwledig a nodweddion a ddiogelir. Mae yna flaenoriaeth gorfforaethol i adolygu hygyrchedd cludiant.

12. Yw unrhyw reolau neu ofynion neu'r modd y caiff polisi neu arfer ei gyflawni yn atal, neu'n gostwng tebygolrwydd, unrhyw grwpiau rhag defnyddio neu gael mynediad neu a oes unrhyw rwystrau eraill yn cael eu creu iddynt?

Oherwydd incwm cyfyngedig, lleoliad, amser darparu, mynediad i adeiladau, gwybodaeth neu iaith, rheolau cymhwyso, cod gwisg, materion diwylliannoll

Bydd y flaenoriaeth i ddatblygu ein llyfrgelloedd mewn i ganolfannau cymunedol ac i adolygu cludiant yn anelu i wella hygyrchedd i wasanaethau ledled y sir.

Bydd datblygu strategaeth gyfathrebu newydd hefyd yn anelu at gynyddu dealltwriaeth pobl o pa wasanaethau sydd ar gael iddynt, ac ymhle.

Nod datblygiad Sgwrs y Sir yw annog pob rhan o'r gymuned i ddweud eu dweud yn y ffordd fwyaf priodol sy'n addas iddyn nhw.

13. A ellir cyfiawnhau unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn ar sail gwella cyfleoedd cyfartal neu feithrin perthnasau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a'r rhai nad ydynt yn gwneud?

Dim.

14. A yw unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon?

Ydi Nac ydi Ddim yn siŵr
(rhowch groes fel sy'n briodol X)

Os mai eich ateb yw Ydi neu Ddim yn siŵr, nodwch ar y tabl isod, pa grŵp(iau) a ddiogelir y mae'n berthnasol iddynt ac os yw'n bosibl egluro pam (gan gynnwys effaith neu effeithiau tebygol y newid bwriedig hwn):

Hil -	Grwpiau Lleiafrif Ethnig Du Sipsiwn / Teithwyr Iaith
Anabledd -	Symudedd Dehurwydd Dall neu nam ar y golwg Byddar neu nam ar y clyw Iechyd Meddwl Anableddau Dysgu
Rhyw -	Dynion Merched
Oedran -	Pobl Hŷn, Plant, Pobl Ifanc
Crefydd a Chred -	Cymunedau ffydd
Cyfeiriadedd Rhywiol -	Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol, Heterorywiol
Ailbennu Rhywedd -	Unigolyn sy'n bwriadu, yn dechrau neu wedi newid ei ryw neu ei rhyw
Priodas a Phartneriaeth Sifil -	
Beichiogrwydd a Mamolaeth -	
Hawliau Dynol -	Hawl i Addysg, Bywyd Preifat a Theuluol, Diogelu eiddo, ac ati
Cymunedau Cymraeg eu Hiaith -	
Grwpiau neu gymunedau eraill wedi'u heithrio yn gymdeithasol (nodwch) -	

15. Os mai Na oedd eich ateb i Gwestiwn 14, a yw'r rhwystrau a'r cyfyngiadau yn gyfystyr â thriniaeth wahaniaethol i grwpiau penodol?

Ydi Nac ydi Ddim yn siŵr
(*rhowch groes fel sy'n briodol X*)

16. Os mai eich ateb i Gwestiwn 15 oedd Ydy neu Ddim yn siŵr, rhowch fanylion yn y bocs isod ac eglurwch pam

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn manylu lle mae gwahanol faterion wedi'u nodi sydd angen eu gwella. Ffocws y Cynllun Corfforaethol ydi edrych i'r tymor hwy, tra ein bod yn mynd i'r afael ag anghenion y presennol, a sicrhau nad ydym yn cael effaith negyddol ar genedlaethau'r dyfodol. Er ein bod yn fodlon nad yw'r Cynllun Corfforaethol yn cael effaith negyddol ar grwpiau penodol, rydym wedi ceisio rhagweld na fydd y camau a gymerwn yn awr yn cael effaith negyddol ar genedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn monitro'r camau gweithredu, fel y nodir yn Adran 8 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar grwpiau gwarchoddedig wrth i'r camau gweithredu gael eu rhoi ar waith.

O ran ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg, mae gan y Cyngor fynediad at wasanaeth [The Big Word](#). Gwasanaeth cyfieithu a dehongli 24 awr y dydd ydi *The Big Word*, sy'n rhoi mynediad at fwy na 3,300 o gyfieithwyr a dehonglwyr mewn mwy na 234 o ieithoedd. Gallwn ddefnyddio gwasanaethau *The Big Word* naill ai o swyddfeydd y Cyngor neu pan fydd swyddogion y Cyngor yn ymweld â chartref neu fusnes cwsmeriaid nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg. Gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn ydyw'n bennaf, ond maent hefyd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig ar gyfer llythyrau a dogfennau yn ogystal.

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys blaenoriaethau i hyrwyddo defnydd a manteisio ar y Gymraeg.

Rydym wedi cydnabod bod angen i'r Strategaeth Gyfathrebu adlewyrchu gofynion pobl fyddar a phobl sydd â nam ar eu golwg. Bydd hyn yn bwydo i mewn i'r adolygiad o'r Strategaeth Gyfathrebu.

17. A oes gennych ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus?

Oes Nac oes (*rhowch groes fel sy'n briodol X*)

Os mai eich ateb oedd Oes, cyfiawnhewch hyn:

Mae'r asesiad o les wedi cael ei ddatblygu yn unol â chanllawiau penodol i gefnogi Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Bu trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cynnwys ac ansawdd Asesu Lles i sicrhau bod y dadansoddiad yn gadarn, ac felly mae unrhyw flaenoriaethau allweddol wedi'u seilio ar farn wybodus.

Mae'r broses o ddatblygu'r blaenoriaethau yn adlewyrchu 5 ffordd o weithio Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, a chafodd ei gynnal mewn modd cynhwysol trwy drafod gydag Aelod a Phenaethiaid Gwasanaeth.

Yn ogystal gyda chymorth Llais y Gymuned, buom yn siarad gyda bron i 30 o grwpiau cymunedol, yn cynnwys ystod o fuddiannau cymunedol mewn cymysgedd o leoliadau trefol a gwledig. Fe wnaethom hefyd gyfathrebu drwy Aelodau Etholedig CBS Conwy a Chynghorau Tref a Chymuned i annog cyfranogiad lleol. Yn ogystal, fe wnaethom ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Sgwrs y Sir gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol, rhwydweithiau busnes, ein partneriaid statudol a staff, a diweddarau pobl am y sylwadau roeddem yn eu derbyn. Datblygwyd gwefan benodol hefyd i alluogi pobl i lenwi'r holiadur ar-lein. Fe wnaethom dderbyn tua 500 o ymatebion i Sgwrs y Sir.

Rydym yn cydnabod yn y Cynllun Corfforaethol er ein bod wedi ymgysylltu â phob grŵp a ddiogelir, mae yna rai grwpiau yr hoffem gynyddu'r lefel o ymgysylltu dros gyfnod y weinyddiaeth. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn rhan o'r adolygiad mewn i ddull ymgysylltu Conwy.

Os mai eich ateb oedd Nac oes, pa wybodaeth ydych chi angen am grwpiau a ddiogelir?

Amherthnasol

18. Yw'n bosibl cael yr wybodaeth sydd angen yn sydyn ac yn hawdd, neu a ddylid cynnwys casglu data yn y cynllun gweithredu? Rhowch y manylion isod:

Mae'r asesiad lles wedi'i chyhoeddi ar wefan.

<http://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/en/home/english-wellbeing-assessment/>

CAM 5 – Delio gydag Effaith Niweidiol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Arfer

Yn yr adran hon, byddwch yn ystyried a oes unrhyw fesurau i leihau neu ddileu unrhyw effaith negyddol. Dylech hefyd archwilio dulliau eraill o gyflawni'r un nod ac / neu ddulliau gwahanol o ddarparu gwasanaeth i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau.

19. Pa fesurau fedrwch chi eu cyflwyno i'r polisi neu'r arfer a allai leihau neu ddileu unrhyw effaith neu anfantais anghyfreithlon?

Byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant ysgol sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd ddim.

Bydd ein hadolygiad o'r strategaeth gyfathrebu yn ymdrin â phryderon ynglŷn â mynediad i wybodaeth ar gyfer pobl fyddar ac sydd â nam ar eu golwg.

Bydd datblygu canolfannau cymunedol yn gwella hygyrchedd i wasanaethau ledled y sir.

Bydd yr adolygiad o gludiant hefyd yn anelu at wella hygyrchedd.

20. Pa fesurau a ellid eu cynnwys i gryfhau'r polisi/arfer a meithrin perthnasau da a bwrw ymlaen â chyfleoedd cyfartal?

Bydd adolygu a chryfhau Sgwrs y Sir yn anelu at wella a meithrin cysylltiadau da rhwng y Cyngor a'r nodweddion a ddiogelir. Bydd y thema drawsbynciol o gydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb a'r cysylltiad i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd yn cryfhau perthnasau gwasanaethu.

21. Pa gamau allech chi eu cymryd i gyflawni'r un nod drwy ddull gwahanol?

Dim

CAM 6 – Cynllun Gweithredu

Amlinellwch isod y camau y byddwch yn eu cymryd i fwrw ymlaen â'ch cynnig. Gallai'r rhain gynnwys cyflawni gweithgarwch Ymgysylltu/Cynnwys, casglu data Cydraddoldeb lle nad yw hyn ar gael yn rhwydd i helpu gyda'r EIA hwn, cynnal dadansoddiad data o'r data a geir yn y dyfodol i fonitro effaith y polisi / arfer hwn yn barhaus, unrhyw gamau sydd angen i chi eu cymryd i sicrhau bod caffael yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol, unrhyw drefniadau sydd angen i chi eu rhoi ar waith i fonitro ac adolygu effaith y polisi / arfer hwn yn y dyfodol, ac yn y blaen.

Cam Gweithredu	Mesur Llwyddiant	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)
Camau i'w cymryd cyn y gellir cwblhau'r polisi/arfer				
Bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer ymgynghori pellach gyda'r gymuned rhwng mis Mawrth a mis Mai 2017	Derbyn adborth cadarnhaol gan y gymuned bod y blaenoriaethau yn gywir	3 mis	Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol	✓
Gweithio gyda menter gymdeithasol leol i ddatblygu fersiwn ar gyfer y cyhoedd o'r Cynllun Corfforaethol i wella hygyrchedd	Cwblhau fersiwn arall o'r cynllun	5 mis	Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol, a Marchnata a Chyfathrebu	✓
Gweithio gyda'r Weinyddiaeth newydd i sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn adlewyrchu barn y llais democrataidd newydd ei ethol.	Cwblhau gweithdai Aelodau newydd	6 mis	Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol	✓
Camau ar ôl cwblhau'r EIA a'r polisi / arfer				
Bydd pob blaenoriaeth yn cynnal sgriniad EIA i ganfod a oes angen EIA unigol.	Cwblhau EIAau	3 mis	Y gwasanaeth perthnasol	✓

CAM 7 – Penderfyniad i Fwrw Ymlaen

22. Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu yng nghanau 1 - 5 uchod, nodwch ar y tabl isod a oes modd i chi fwrw ymlaen â'r polisi neu'r arfer ac os gallwch chi, ar ba sail?

(rhowch groes fel sy'n briodol X)

Penderfyniad		Cam Gweithredu
<input type="checkbox"/> Oes	Parhau â'r polisi neu'r arfer ar ei ffurf bresennol	Cwblhau'r rhan Monitro ac Adolygu (Cam 8) i sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd
<input checked="" type="checkbox"/> Oes	Parhau â'r polisi neu'r arfer ond gydag addasiadau i'w wella	Cwblhau'r adrannau Cynllun Gweithredu a Monitro ac Adolygu (Camau 6 a 8) i asesu'r effaith yn barhaus
<input type="checkbox"/> Oes	Parhau â'r polisi neu'r arfer ond gydag addasiadau i ddileu unrhyw feysydd lle byddai effaith negyddol a nodwyd yng Ngham 5	Cwblhau Cynllun Gweithredu (Cam 6) i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle mae effaith negyddol a Monitro ac Adolygu (Cam 8) i asesu'r effaith yn barhaus
<input type="checkbox"/> Na	Rhoi'r gorau i'r polisi neu'r arfer hwn gan nad yw'n bosibl mynd i'r afael â'r effaith negyddol, ac ystyried ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r materion	Cwblhau Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn deillio o roi'r gorau i'r polisi a delio â'r effaith negyddol a ddynodwyd

CAM 8 – Trefniadau ar gyfer Monitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae proses yr EIA yn un barhaus nad yw'n dod i ben pan gytunir ar bolisi / arfer a phan gytunir ar EIA a'i gyflwyno. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith polisiâu/arferion ar gydraddoldeb yn barhaus i nodi a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno'r polisi neu'r arfer newydd hwn.

23. **Amlinellwch pa drefniadau y byddwch yn eu gwneud i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r arfer hwn:**

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys ble bydd canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)
Bydd y Cynllun Corfforaethol yn cael ei adolygu bob 6 mis a bydd diweddariad ar y cynnydd yn cael ei gyflwyno i Aelodau Etholedig. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar ein gwefan.	6 mis	Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol	la
Bydd camau gweithredu hefyd yn cael eu hadolygu drwy adolygiadau perfformiad 6 mis a gynhelir gyda phob gwasanaeth.	6 mis	Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol	la

CAM 9 - Cyhoeddi'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb

Trefnwch i'ch Pennaeth Gwasanaeth gytuno ar yr EIA ar ôl ei gwblhau, gweler y Polisi EIA yn ymwneud â chyhoeddi trefniadau cyhoeddi ac anfon copi yn ôl at y Swyddog AD a Chydraddoldeb.